**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Carl Foulkes
Vij Randeniya
Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd
Kirsty Williams

18 Mawrth 2024

Annwyl Gomisiynwyr,

# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf na ddylai ein hymchwiliad i drefniadau llywodraethu gwasanaethau tân ac achub amharu ar eich gwaith pwysig i ddiwygio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi yn hynny o beth ac roeddem yn ddiolchgar am y cyfle i bwysleisio hyn pan wnaethom gyfarfod yr wythnos diwethaf. Er mwyn galluogi sgwrs agored a gonest, gwnaethom benderfynu cynnal y cyfarfod cychwynnol hwnnw’n breifat. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod nifer o faterion er budd y cyhoedd yn deillio o'n gwaith y mae angen mynd ar eu trywydd yn fwy ffurfiol ac yn ysgrifenedig. Nodir y rhain isod.

## Penodi Stuart Millington fel Prif Swyddog Tân Dros Dro

Hoffem ofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â phenodi Stuart Millington fel Prif Swyddog Tân Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb pob un o'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pam roedd angen penodi Prif Swyddog Tân Dros Dro a beth yw hyd disgwyliedig y penodiad?

2. Pwy wnaeth y penderfyniad i argymell penodi Stuart Millington fel Prif Swyddog Tân Dros Dro? Pa gyfraniad, os o gwbl, a gafodd y canlynol yn y broses benodi (ym mhob achos, nodwch natur y cyfraniad):
    a. Swyddogion Llywodraeth Cymru;
    b. Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru;
    c. Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru;
    d. y Gweinidog cyfrifol yn Llywodraeth Cymru (boed y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol neu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol)?

3. Yn ystod ein sesiwn gydag undebau llafur, mynegodd Undeb y Brigadau Tân a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub bryderon ynghylch y penodiad. Yn benodol, dywedodd Tristan

Ashby y canlynol wrthym y cawsant eu synnu y dewiswyd rhywun heb lwyddiant blaenorol, nad oedd yn bennaeth, ond yn bennaeth cynorthwyol, gan ychwanegu nad oeddent yn deall sut y gwnaed y penodiad na pha ddiwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd.[1] Sut fyddech yn ymateb i'r pryderon hyn?

## Penodi olynydd parhaol fel Prif Swyddog Tân

4. Beth yw'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer penodi olynydd parhaol fel Prif Swyddog Tân De Cymru? A oes gennych ddyddiad dechrau targed?
5. Pwy fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y meini prawf recriwtio ar gyfer yr olynydd parhaol fel Prif Swyddog Tân?
6. Sut y byddwch yn cynnwys staff a rhanddeiliaid yn y broses benodi?
7. Sut rydych yn bwriadu sicrhau amrywiaeth o ymgeiswyr ar gyfer swydd y Prif Swyddog Tân? Er enghraifft, a fyddech yn ystyried penodi ymgeisydd o faes neu gefndir proffesiynol gwahanol?

## Adnoddau ar gyfer gwneud eich gwaith

8. Sut y telir y costau sy'n deillio o'ch gwaith? A fyddant yn cael eu talu o gyllideb Llywodraeth Cymru neu gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru?
9. Pa adnoddau pwrpasol sydd ar gael i chi eu defnyddio yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru?
10. Pa adnoddau pwrpasol sydd ar gael i chi eu defnyddio yn Llywodraeth Cymru?

## Cydweithio

11. Sut y byddwch yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y pedwar comisiynydd? O ystyried bod natur eich ymrwymiadau'n golygu eich bod yn debygol o fod yn gweithio o leoliadau gwahanol ar draws y wlad, sut y byddwch yn sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i gydweithio?
12. Pa drefniadau y byddwch yn eu rhoi ar waith ar gyfer adrodd ar gynnydd yn rheolaidd?

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb cyn gynted ag y bo'n gyfleus i chi ac erbyn 5 Ebrill 2024 fan bellaf. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

[1] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, paragraff 237, 4 Mawrth 2023